# Polisi Diogelu Data

## Datganiad Polisi

Mae angen i **QAA** gasglu gwybodaeth bersonol i gyflawni ein swyddogaethau a'n gweithgareddau bob-dydd yn effeithiol ac i ddarparu ein gwasanaethau. Cesglir data o'r fath oddi wrth weithwyr, aelodau, partneriaid rhyngwladol, cwsmeriaid, rhanddeiliaid, cyflenwyr a chleientiaid, ac mae'n cynnwys *(ond heb fod yn gyfyngedig i),* enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, dyddiad geni, cyfeiriad IP, rhifau adnabod, gwybodaeth breifat a chyfrinachol, gwybodaeth sensitif a manylion banc/cerdyn credyd.

Yn ogystal, efallai y bydd gofyn i ni gasglu a defnyddio rhai mathau o wybodaeth bersonol i gydymffurfio â gofynion y gyfraith a/neu reoliadau. Fodd bynnag rydym wedi ymrwymo i brosesu'r holl wybodaeth bersonol yn unol â'r cyfreithiau diogelu data'r DU ac unrhyw gyfreithiau a chodau ymddygiad diogelu data perthnasol eraill (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel **"y cyfreithiau diogelu data").**

Mae QAA wedi ymrwymo i sicrhau a chynnal diogelwch a chyfrinachedd data personol a/neu ddata categori arbennig, ac mae pob cydweithiwr yn gyfrifol am drin data yn unol â'r polisi hwn.

## Cwmpas

Diben y polisi hwn yw sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data (DPA) 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR) y DU sy'n llywodraethu sut mae unrhyw wybodaeth am unigolion byw yn cael ei phrosesu a'r hawliau sydd gan yr unigolion hynny mewn perthynas â'r wybodaeth hon. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cwmpasu'r holl wybodaeth bersonol a gedwir ar ffurf electronig a phapur.

Mae QAA yn rheolydd ac yn brosesydd data personol ac mae'r Asiantaeth wedi'i chofrestru gyda Comisiynydd Gwybodaeth fel Rheolydd Data. Mae'r polisi'n ymgorffori canllawiau gan comisiynydd gwybodaeth ac yn amlinellu sut y bydd QAA yn cyflawni eu dyletswyddau a'u rhwymedigaethau i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob rhan o QAA ac i'r holl ddata personol a gedwir ac a brosesir gan y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys data a gedwir mewn unrhyw system neu fformat, boed yn electronig neu ar ffurf copi caled.

Mae cadw at y polisi hwn yn orfodol i holl gyflogeion QAA, boed ar gytundeb parhaol, am gyfnod penodol neu dros-dro, adolygwyr, unrhyw gynrychiolwyr trydydd parti neu is-gontractwyr, gweithwyr asiantaeth, gwirfoddolwyr, interniaid ac asiantau sy'n ymwneud â QAA yn y DU neu dramor. Gallai peidio â chydymffurfio arwain at gamau disgyblu.

## Categorïau o ddata

At ddibenion categoreiddio gwybodaeth, mae QAA yn defnyddio diffiniadau GDPR o "ddata personol" a "data categori arbennig", fel a ganlyn:

| **Data personol** | **Data categori arbennig** |
| --- | --- |

| | |
|---|---|
| Unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson naturiol a adnabyddir neu sy'n adnabyddadwy.<br><br>Person naturiol adnabyddadwy yw rhywun y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn benodol trwy gyfeirio at ddynodwr fel:<br>• enw<br>• rhif adnabyddiaeth,<br>• data'n ymwneud â lleoliad,<br>• dynodwr ar-lein, neu<br>• un neu fwy o ffactorau penodol sy'n ymwneud â hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw. | Data personol sy'n datgelu neu'n ymwneud â pherson naturiol adnabyddadwy:<br><br>• tarddiad hiliol neu ethnig,<br>• safbwyntiau gwleidyddol<br>• credoau crefyddol neu athronyddol<br>• aelodaeth o undeb llafur<br>• prosesu data genetig<br>• data biometrig (lle y'i defnyddir at ddibenion adnabyddiaeth)<br>• data sy'n ymwneud ag iechyd<br>• data ynghylch bywyd rhywiol person<br>• data am gyfeiriadedd rhywiol person. |

Mae QAA yn sicrhau bod data personol sy'n dod o fewn ***"categorïau arbennig"*** GDPR yn cael ei drin â lefel arbennig o uchel o ran gofal, oherwydd y dybiaeth y gallai'r math hwn o wybodaeth gael ei defnyddio mewn ffordd negyddol neu gamwahaniaethol a'i bod o natur sensitif a phersonol i'r personau y mae'n ymwneud â nhw. Mae QAA yn gwneud cyn lleied â phosib o brosesu data categori arbennig i'n galluogi i gyflawni ein swyddogaethau.

## Egwyddorion diogelu data

Mae Erthygl 5 o GDPR y DU yn ei gwneud yn ofynnol i reolwr data gydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data canlynol:

- **Atebolrwydd –** mae sefydliadau'n gyfrifol am gydymffurfio â'r holl egwyddorion, a rhaid iddynt allu dangos eu cydymffurfiaeth.
- **Cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder** - rhaid prosesu data personol yn gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw mewn perthynas ag unigolion.
- **Cyfyngiadau o ran diben** - rhaid casglu data at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon a pheidio â'i brosesu mewn modd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.
- **Lleihau data** - rhaid i ddata personol fod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r dibenion y caiff ei brosesu ar eu cyfer.
- **Cywirdeb** - rhaid i ddata personol fod yn gywir a, lle bo angen, ei gadw'n gyfredol. Rhaid cymryd pob cam rhesymol i gywiro neu ddileu data personol sy'n anghywir heb oedi, gan ystyried y dibenion y caiff ei brosesu ar eu cyfer.
- **Cyfyngiadau ar storio** - ni ddylid cadw data am gyfnod hwy nag sydd ei angen at y dibenion y cafodd ei gasglu ar eu cyfer, oni bai ei fod yn cael ei gadw at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol, o dan amodau ddiogelwch priodol.
- **Uniondeb a chyfrinachedd -** rhaid prosesu data personol yn ddiogel, gan ei ddiogelu rhag mynediad heb awdurdod, colled, dinistr neu ddifrod.

Polisi QAA yw y dylai prosesu pob data personol fod yn ddiogel, yn foesegol ac yn dryloyw ac mae gennym weithdrefnau yn eu lle i alluogi'r sawl sy'n destun y data hwnnw i arfer eu hawliau:

- Rydym yn diogelu hawliau unigolion o ran prosesu gwybodaeth bersonol
- Rydym yn datblygu, gweithredu a chynnal polisi diogelu data, yn ogystal â gweithdrefn a hyfforddiant ar gyfer cydymffurfio â chyfreithiau diogelu data.

- Rydym yn cofnodi caniatâd ar yr adeg y ceir gafael ar y data, a gallwn roi tystiolaeth o ganiatâd o'r fath pan ofynnir amdano.
- Mae gennym Weithdrefn Gwyno gadarn sydd wedi'u dogfennu a pholisïau Adrodd am Ddigwyddiadau Data ar gyfer nodi, ymchwilio, adolygu ac adrodd am unrhyw doriadau neu gwynion am ddiogelu data.
- Rydym yn storio ac yn dinistrio'r holl wybodaeth bersonol yn unol â'n polisi Cadw Gwybodaeth
- Bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir i unigolyn mewn perthynas â data personol a gedwir neu a ddefnyddir amdano, yn cael ei darparu mewn ffurf gryno, dryloyw, ddealladwy a hygyrch, gan ddefnyddio iaith glir a phlaen
- Rydym yn cadw cofnodion o weithgareddau prosesu
- Rydym yn cynnal cofnodion o weithgareddau prosesu ar gyfer data sy'n cael ei brosesu'n rheolaidd neu sy'n debygol o gynnwys risg i hawliau a rhyddid unigolion neu sy'n cynnwys data categori arbennig.

## Cofnodion prosesu lle mae QAA yn Rheolydd Data neu'n Brosesydd Data

Lle rydym yn gweithredu naill ai yn rhinwedd ein swydd fel rheolydd data neu yn rhinwedd ein swydd fel prosesydd data (*neu gynrychiolydd*), bydd ein cofnodion mewnol o'r categorïau o weithgareddau prosesu a gynhelir yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Enw llawn a manylion cyswllt y prosesydd a phob rheolydd y mae'r prosesydd yn gweithredu ar ei ran, a, lle bo'n berthnasol, cynrychiolydd y rheolydd neu gynrychiolydd y prosesydd, a'r swyddog diogelu data.
- Y categorïau prosesu a gynhelir ar ran pob rheolydd
- Lle bo'n berthnasol, unrhyw achos lle trosglwyddir data personol i drydedd wlad neu sefydliad rhyngwladol (gan gynnwys nodi'r drydedd wlad neu'r sefydliad rhyngwladol hwnnw a, lle bo'n berthnasol, dogfennu mesurau diogelu addas).
- Disgrifiad cyffredinol o'r mesurau diogelwch ar gyfer prosesu a ddefnyddiwyd (Yn unol â GDPR y DU).

**Ardystio allanol**
Mae QAA wedi'u hardystio gan Biwro Asesu Prydain i ISO 27001:2022, y safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth. Mae'r ardystiad hwn yn dangos ein hymrwymiad i ddiogelu data a chynnal rheolau diogelwch cadarn, a gydnabyddir yn rhyngwladol.

**Proseswyr trydydd parti**
Mae QAA yn defnyddio proseswyr allanol ar gyfer rhai gweithgareddau prosesu. Rydym yn defnyddio archwiliadau gwybodaeth i ddynodi, categoreiddio a chofnodi'r holl ddata personol sy'n cael ei brosesu y tu allan i QAA, fel bod y wybodaeth, y gweithgaredd prosesu, y prosesydd a'r sail gyfreithiol i gyd yn cael eu cofnodi, eu hadolygu a'u bod ar gael yn hawdd. Gall prosesu allanol o'r fath gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:

- Systemau a Gwasanaethau TG
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Cyflogres
- Yswiriant
- Gwiriadau cynaladwyedd ariannol, rheolaeth a llywodraethiant
- Gwasanaethau Marchnata/Postio Uniongyrchol
- Rheoli digwyddiadau.

Mae gennym weithdrefnau a mesurau diwydrwydd dyladwy ar waith ac rydym yn adolygu, asesu a gwirio cefndir pob prosesydd cyn ffurfio perthynas fusnes. Yn ystod y gwiriadau hyn, mae'n bosib y byddwn yn cael gafael ar ddogfennau cwmni, ardystiadau a thystlythyrau i

sicrhau bod y prosesydd yn ddigonol, yn briodol ac yn effeithiol ar gyfer y dasg rydym yn eu cyflogi ar ei chyfer.

Rydym yn sicrhau bod Cytundebau Lefel Gwasanaeth (SLA) a chontractau sy'n cynnwys rhwymedigaethau cydsyniad priodol ar waith gyda'r holl broseswyr data trwy'r broses ar gyfer cymeradwyo contractau. Caiff proseswyr eu hysbysu na ddylent gyflogi prosesydd arall heb ein caniatad penodol ymlaen llaw a rhaid cyflwyno unrhyw newidiadau y bwriedir eu gwneud ynghylch ychwanegu neu amnewid proseswyr presennol yn ysgrifenedig, cyn i unrhyw newidiadau o'r fath gael eu gweithredu.

Cyfrifoldeb rheolwr y contract yw sicrhau bod pob un o'r gweithgareddau prosesu a nodir yn y contract yn cael eu monitro, eu harchwilio a'u bod yn adrodd arnynt.

## Hawliau Testun Data

Yr hawliau a roddir i'r rhai sy'n destun data o dan ddeddfwriaeth diogelu data yw:

- yr hawl i gael gwybodaeth
- yr hawl i gael mynediad at y wybodaeth a gedwir amdanynt (trwy Gais am Wybodaeth gan Destun)
- yr hawl i gywiro gwallau
- yr hawl i ddileu
- yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- yr hawl i gludo data gyda nhw
- yr hawl i wrthwynebu
- hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

O dan ddeddfwriaeth y Rheoliad Diogelu Data, mae gan y rhai sy'n destun data hawl i weld eu data personol a gedwir gan QAA.

Gall unrhyw unigolyn sy'n dymuno arfer yr hawl hon wneud hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig trwy gysylltu â Governance@qaa.ac.uk. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan QAA: https://www.qaa.ac.uk/about-us/how-we're-run/qaa-policies.

## Llywodraethiant Data

**Data personol am weithwyr**

Nid ydym yn defnyddio caniatâd fel sail gyfreithiol ar gyfer cael gafael ar neu brosesu gwybodaeth bersonol am weithwyr. Mae ein polisïau Adnoddau Dynol wedi cael eu diweddaru i sicrhau bod gweithwyr yn cael y wybodaeth briodol am sut rydym yn prosesu eu data a pham.

**Hysbysiad Preifatrwydd**

Mae Hysbysiad Preifatrwydd QAA yn dweud wrthych beth i'w ddisgwyl pan fydd QAA yn casglu gwybodaeth bersonol i fodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoleiddiol, statudol a chytundebol ac i ddarparu gwybodaeth i aelodau, partneriaid rhyngwladol, cwsmeriaid a rhanddeiliaid, naill ai am ein cynnyrch a'n gwasanaethau neu am faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd.

Mae yna Hysbysiad Preifatrwydd – Ein Cydweithwyr ar wahân sy'n hysbysu gweithwyr, adolygwyr, contractwyr, aelodau bwrdd a phwyllgorau QAA o'u hawliau o dan y deddfau diogelu data a sut i arfer yr hawliau hyn, ynghyd â manylion y wybodaeth bersonol rydym yn ei chasglu a'i phrosesu amdanynt.

**Storio data**

Bydd gwybodaeth a chofnodion sy'n ymwneud â thestun y data'n cael eu storio'n ddiogel, a

dim ond gweithwyr awdurdodedig fydd yn cael mynediad atynt. Bydd gwybodaeth yn cael ei storio dim ond cyhyd ag y bo angen neu'n unol â'r statud gofynnol, a bydd yn cael ei gwaredu'n briodol.

**Cywirdeb data**
Mae QAA yn cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei diweddaru trwy ofyn i destun y data ynghylch unrhyw newidiadau.

**Archwiliadau a monitro**
Mae archwiliadau mewnol rheolaidd yn cael eu cwblhau'n annibynnol gan ein Tîm Cydymffurfiaeth. Mae gennym hefyd brosesau monitro cydsyniad gyda'r bwriad o sicrhau bod y mesurau a'r rheolaethau sydd ar waith i ddiogelu'r rhai sy'n destun data a'u gwybodaeth yn ddigonol, yn effeithiol ac yn cydymffurfio bob amser. Mae QAA yn atebol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ac yn y pen draw i'r Bwrdd, o ran cydymffurfio â'r polisi hwn.

**Hyfforddiant**
Mae QAA wedi ymrwymo i raglen ymwybyddiaeth staff sy'n sicrhau bod gweithwyr newydd a phresennol yn cael eu hyfforddi, eu hasesu a'u cefnogi mewn amrywiol ffyrdd i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu data mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys:

- Hyfforddiant sefydlu ar-lein gyda phrawf ar ddiwedd pob modiwl
- Hyfforddiant rhithwir sy'n canolbwyntio ar bolisïau a gweithdrefnau QAA
- Hyfforddiant gloywi blynyddol ar ddiogelu data, rheoli cofnodion, diogelwch gwybodaeth a seiberddiogelwch, a ddarperir mewn sesiynau grŵp, naill ai wyneb-yn-wyneb neu'n rhithwir
- Diweddariadau ymwybyddiaeth a rhybuddion rheolaidd am unrhyw risgiau o ran diogelwch gwybodaeth
- Sesiynau cymorth 1:1 yn ôl yr angen
- Mynediad at bolisïau, gweithdrefnau, rhestrau gwirio a dogfennau ategol yn ymwneud â diogelu data a gwybodaeth.

## Cosbau am beidio â chydymffurfio

Mae QAA yn deall eu rhwymedigaethau a'u cyfrifoldebau o dan y deddfau diogelu data ac yn cydnabod difrifoldeb mynd yn groes i unrhyw un o'r rhain. Rydym yn parchu awdurdod y Comisiynydd Gwybodaeth i osod a gorfodi dirwyon a chosbau lle mae methiant i gydymffurfio â rheoliadau, methiant i liniaru'r risgiau lle bo hynny'n bosibl, a gweithredu'n fwriadol mewn modd sydd ddim yn cydymffurfio.

| **Math o Drosedd** | **Uchafswm y ddirwy** |
|---|---|
| Gweithredu'n groes i'r egwyddorion sylfaenol ar gyfer prosesu, amodau ar gyfer caniatâd, hawliau testun y data, trosglwyddo data personol i dderbynnydd mewn trydedd wlad neu sefydliad rhyngwladol, sefyllfaoedd prosesu penodol neu beidio â chydymffurfio â gorchymyn gan y Comisiynydd Gwybodaeth | **Dirwyon gweinyddol hyd at £17.5 miliwn** neu 4% o gyfanswm trosiant blynyddol byd-eang y flwyddyn ariannol flaenorol, pa un bynnag sydd uchaf |

## Rolau a chyfrifoldebau

Fel Rheolydd Data (neu wrth weithredu fel Rheolydd Data neu Brosesydd Data ar y cyd), mae gan QAA gyfrifoldeb corfforaethol am y canlynol:

- cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data a chadw cofnodion i ddangos hyn

- cydweithredu â  Comisiynydd Gwybodaeth, sef rheoleiddiwr deddfwriaeth Diogelu Data'r DU
- ymateb i gamau rheoleiddio / dyfarniadau llys a thalu dirwyon a osodir gan â Comisiynydd Gwybodaeth.

Dyma'r rolau a'r cyfrifoldebau:

**Prif Weithredwr**
Mae QAA yn Rheolydd Data, ac mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod gofynion "cyfreithiau diogelu data" yn cael eu bodloni a bod y sefydliad yn darparu adnoddau digonol i alluogi'r cwmni a'i holl weithwyr i gydymffurfio â'u dyletswyddau diogelu data.

**Grŵp Llywodraethiant Data a Gwybodaeth (DIGG)**
Mae DIGG yn monitro cydsyniad â "chyfreithiau diogelu data" a pholisïau mewnol sy'n ymwneud ag archwilio diogelu data. Mae DIGG hefyd yn adolygu polisïau diogelu data, cadw a rheoli cofnodion ac yn gwneud argymhellion i'w cymeradwyo gan y Prif Weithredwr neu'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

**Swyddog Diogelu Data (DPO)**
DPO QAA yw'r Cyfarwyddwr Gweithredol dros Faterion Corfforaethol sy'n gyfrifol am:

- Cydweithredu â'r awdurdod goruchwylio.
- Adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Gwaith/Bwrdd yng nghyd-destun dynodi a rheoli risgiau gweithredol a strategol.
- Cyflwyno adroddiadau blynyddol ar berfformiad i Bwyllgor Archwilio a Risg QAA.

**Pennaeth Cydsyniad a Gwasanaethau Adolygwyr**

- Cyfeirio at gynghorwyr cyfreithiol allanol ac arbenigwyr pwnc fel y bo'n briodol.
- Ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data ac adrodd ar ganfyddiadau ac argymhellion i'r DPO.
- Cynghori ar asesiadau effaith diogelu data a monitro perfformiad yr asesiadau.
- Goruchwylio rheoli cofnodion data a hyfforddi gweithwyr.

**Y rhai a gyflogir**
Mae'n gyfrifoldeb ar bob gweithiwr i:

- sicrhau eu bod yn casglu, storio a phrosesu data personol yn unol â "chyfreithiau diogelu data" ac yn cydymffurfio â Pholisi Diogelu Data QAA
- Defnyddio data personol dim ond at ddiben y dyletswyddau hynny sy'n perthyn i'w contract cyflogaeth
- Cadw data personol yn ddiogel, gan gynnwys dilyn polisïau a phrosesau perthnasol y cwmni
- Storio cysylltiadau mewn systemau a gymeradwyir ac a reolir, a pheidio â chadw copïau wedi'u dyblygu yn unman arall
- Peidio â cheisio cael mynediad at wybodaeth nad yw'n angenrheidiol iddynt ei chadw na'i phrosesu
- Sicrhau bod unrhyw ddata personol sy'n dod i law yn gywir ac yn berthnasol i'r diben y mae'n angenrheidiol ar ei gyfer
- Cwblhewch hyfforddiant gorfodol yn ystod y cyfnod sefydlu ac wedi hynny'n flynyddol.

# Adolygiad Polisi
Caiff y polisi hwn ei ddiweddaru o leiaf bob dwy flynedd neu yn ôl yr angen i adlewyrchu arfer gorau, cyfraith achosion berthnasol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw newidiadau neu

ddiwygiadau mewn deddfwriaeth diogelu data.

## Pryderon neu Gwynion

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r ffordd rydym yn trin eich data personol, neu os ydych yn credu nad ydym wedi cydymffurfio â chyfreithiau diogelu data, mae gennych hawl i wneud cwyn.

### Cysylltwch â Ni yn Gyntaf

Rydym yn eich annog i gysylltu â ni yn uniongyrchol er mwyn i ni allu ymchwilio a datrys eich pryderon cyn gynted â phosib. Nid oes angen i chi ddefnyddio unrhyw iaith gyfreithiol benodol na ffurflenni ffurfiol i fynegi pryder wrthon ni.

Cyflwynwch eich cwyn i'n Tîm Llywodraethu drwy e-bostio Governance@qaa.ac.uk

### Beth Gallwch ei Ddisgwyl yn Ein Proses

Pan fyddwch yn cyflwyno cwyn diogelu data, byddwn yn ei thrin yn unol â'n Gweithdrefn QAA ar gyfer ymdrin â chwynion.

### Eich Hawl i Uwchgyfeirio

Os na fyddwch yn fodlon â'n hymateb, neu os byddwch yn credu ein bod yn prosesu eich data personol mewn modd anghyfreithlon, mae gennych hawl i wneud cwyn yn uniongyrchol i'r awdurdod goruchwylio.

Yn y Deyrnas Unedig, y Comisiynydd Gwybodaeth (IC) ydy'r awdurdod hwnnw. Gallwch gysylltu â nhw drwy ddefnyddio'r manylion isod:

- **Gwefan:** cy.ico.org.uk/make-a-complaint/
- **Llinell gymorth:** 0303 123 1113
- **Cyfeiriad:** Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF.

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2026.
© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch 2026 Rhifau elusen cofrestredig 1062746 a SC037786 www.qaa.ac.uk